

# Tyfu Llysiau – Cynllunio ar gyfer y Gwanwyn

## TAFLEN GWYBODAETH

Yn y daflen ffeithiau hon, fe welwch gyngor sy'n ymwneud ag ystod o opsiynau tyfu llysiau ac ystyriaethau'n ymwneud â'r tasgau angenrheidiol ar gyfer canol i ddiwedd y gwanwyn.



**Gwasgaru Tail** – Mae tail yn gallu bod yn ffordd wych o wella strwythur y pridd a darparu maetholion i'r cnwd, yn enwedig mewn systemau organig. Nid yw tail ceffylau mor gyfoethog â thail ieir, ond mae'n cynnwys lefel dda o nitrogen. Cyn defnyddio tail, mae'n well ei gompostio mewn tomenni wedi'u gorchuddio a'u troi'n aml pan fydd y tymheredd yn cyrraedd 60°C. Bydd gorchuddio'r domen yn atal maetholion rhag cael eu trwytholchi gan y glaw, a bydd compostio'n effeithiol yn lladd unrhyw hadau chwyn i atal eu lledaenu ar eich tir. Efallai y byddai'n werth gwirio am unrhyw chwynladdwr sy'n cario drosodd – heuwch ychydig o bys neu ffa mewn cynhwysydd a chwiliwch am arwyddion o egino cyn ei wasgaru ar eich tir. Gweler ein taflen ffeithiau ar gompostio tail

am ragor o wybodaeth.

**Dyfrhau** – Os bydd y gwanwyn yn sych, mae'n bosibl y bydd angen dyfrhau, yn enwedig ar gnydau sydd newydd eu trawsblannu. Pibell sy'n gollwng dŵr yn raddol a dyfrhau diferal yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddyfrhau'r pridd yn araf, ond byddwch yn ofalus o ran amseriad – gallai proffil uchaf y pridd fod yn sych, ond yn oer a gwlyb yn is i lawr. Bydd dyfrhau'n gynnar yn cefnogi trawsblaniadau wrth iddynt ddatblygu strwythur gwreiddiau a gallant amsugno dŵr o haenau dyfnach y pridd wrth iddi sychu'n ddiweddarach yn y tymor.

**Rheoli chwyn** – Dylai rheoli chwyn fod yn flaenoriaeth, yn enwedig cyn plannu neu wrth ymsefydlu cnydau. Dylid hefyd reoli darnau o dir glaswelltog/llawn chwyn gan eu bod yn gallu darparu cronfa ar gyfer cynrhon lledr. Dylai rheoli chwyn fod yn flaenoriaeth, yn enwedig cyn plannu neu wrth ymsefydlu cnydau. os ydych chi'n gweld difrod ar eich cnydau, mae'n debygol mai cynrhon lledr llawn dwf o'r llynedd sy'n gyfrifol. Gall marchwellt fod yn broblem benodol, ond mae'n well ei dorri a'i godi'n aml i gyfyngu ar ei ymsefydliad. Yn ddelfrydol, defnyddir oged ddanheddog hen ffasiwn, gan fod y rhain yn llusgo'r gwreiddgyffion i fyny. Gwnewch hyn ar ddechrau cyfnod sych. Ar ôl defnyddio'r oged, gadewch i'r gwreiddgyffion ar yr wyneb sychu. Pan neu os bydd y marchwellt yn dychwelyd, ailadroddwch y broses. Mae'n well plannu cnydau cylch byr fel saladau mewn ardaloedd ger gwelyau marchwellt gan y bydd yn haws rheoli'r rhain na chnydau blwyddyn gyfan neu luosflwydd.



**Cynllunio Cylchdro** – Gall cynllunio cylchdro eich cynorthwyo i sicrhau'r elw gorau ar fuddsoddiad ar eich tir. Mae'n well cynllunio ar gyfer cnydau mwy llwglyd ar ddechrau'r cylchdro – tatws ac india-corn – ar ôl i chi wasgaru tail. Gallwch gynllunio yn ôl grŵp teuluol i leihau'r risg o glefyd, ond efallai y byddai'n well cynllunio yn ôl amser cynaeafu. Ceiswch blannu cnydau sy'n cael eu cynaeafu ar adegau tebyg ar yr un ardaloedd o dir i wneud gwaith cnydau a chynaeafu yn fwy effeithlon. Ystyriwch hefyd ddwysedd plannu a gwnewch yn siŵr eich bod yn cynllunio ar gyfer cyfraddau hadau neu drawsblaniad addas er mwyn gallu cynaeafu cymaint o



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



gynnyrch â phosibl.

**Rhwyllau** – Wrth blannu, ystyriwch wneud hynny o dan rwyll fân lle bo modd, fel WonderMesh, Agromesh ac Enviromesh. Gall y rhain fod yn arbennig o ddefnyddiol i atal difrod gan blâu (e.e. chwilod naid, pryfed moron) yn ogystal ag adar, cwningod a cheirw. Bydd y rhwyll hefyd yn creu microhinsawdd, gan gynhesu'r planhigion a chyflymu'r broses egino a thwf cynnar. Yr arfer gorau yw gosod y rhwyll ochr yn ochr â'r cnwd cyn ei blannu, a'i dynnu drosodd wrth i chi blannu. Gellir sefydlogi'r rhwyll naill ai drwy balu gyda'r pridd neu ei angori gyda bagiau tywod. Dylid gadael y rhwyll yn ei le tan y cynhaeaf er mwyn osgoi difrod plâu. Dylai'r cnwd allu cynnal y rhwyll, ac er y gallech golli planhigyn neu ddau wrth ei osod, bydd effaith hynny'n fach iawn o'i gymharu â'r difrod gan blâu y gellir ei osgoi.



Chwilen naid ar gnydau bresych

### Seleriac

Gall seleriac fod yn gnwd da i'w dyfu ar gyfer ei storio'n oer – gallwch gynllunio i gynaeafu pan fo'r gwreiddyn oddeutu maint pêl rygbi ym mis Hydref/Tachwedd, ac yna ei storio'n oer mewn lle llaith i'w werthu i mewn i'r gwanwyn canlynol os oes angen. Mae angen tymor hir ar seleriac i gyrraedd maint da; argymhellir eich bod chi'n prynu planhigion hybrid F1 o lusogwr i roi dechrau da i'ch cnwd. Mae seleriac a seleri mewn perygl o *Septoria* sy'n achosi manau clorotig ar y dail sy'n troi'n necrotig. Gall ymddangosiad smotiau ar y dail fod yn rhybudd cynnar; mae'n well defnyddio triniaeth ffwngladdwr (e.e. Amistar - EAMU 2198/19) pan fydd y rhain yn dechrau ymddangos. Ar gyfer tyfwyr organig, gallai gwasgu bicarb fod yn effeithiol, a gallai bwydo trwy'r dail wella ymwrthedd i'r clefyd.



### Cnydau *Allium*

Gall pydredd gwyn mewn winwns a achosir gan *Sclerotium* ddatblygu ar ddiwedd y gwanwyn a dechrau'r haf, yn enwedig mewn bylbiau winwns a blannwyd yn yr hydref. Gall pydredd gwyn fod yn anodd ei reoli, hyd yn oed gyda ffwngladdwr confensiynol. Mae hylendid cnydau da yn hanfodol – byddwch yn ofalus i waredu malurion heintiedig i atal halogi cnydau iach. Gall sglerotia a gynhyrchir gan y ffwng barhau yn y pridd am flynyddoedd lawer, er bod adroddiadau'n nodi bod taenu gwastraff winwns dros briddoedd wedi'u heintio'n ysgafn yn gallu sbarduno'r sglerotia i egino a marw heb gnwd i'w heintio.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**





### Moron

Wrth blannu moron a phannas, gellir defnyddio Emerger (Bayer) fel chwynladdwr cyn ac ar ôl ymddangosiad – gellir defnyddio hwn hefyd mewn cnydau moron, seleriac, pannas, cennin a winwns salad o dan EAMU 1100/2020, 1101/2020 a 1102/2020. Argymhellir y dylech osgoi plannu seleri/seleriac yn agos at foron – mae’r rhain yn ddeniadol i bryfed moron ac yn gallu gweithredu fel cronfa ar gyfer y plâu, gan gynyddu’r risg o ddifrod i’ch cnydau moron – a dylech anelu at wahanu cnydau newydd oddi wrth y rhai sydd wedi cael eu gaeafu allan os ydych yn anelu at sicrhau cyflenwad drwy gydol y flwyddyn. Ar gyfer rheolaeth gonfensiynol, gall Hallmark (lambda-cyhalothrin) fod yn effeithiol.

Mae fforchio mewn moron a phannas yn cael ei achosi gan ystod o

nematodau sy’n byw yn rhydd megis nematodau gwreiddiau stympiog (*Trichodorus/Paratrichodorus*) neu nematodau nodwydd (*Longidorus*). Gall lladdwyr nematodau fod o rywfaent o ddefnydd. Gellir defnyddio gronynnau Nemguard DE mewn systemau organig ac anorganig gan ei fod wedi’i wneud o echdynnyn garleg wedi’i addasu.

### Asbaragws

Mae asbaragws yn gnwd deniadol i dyfwyr Cymru, gan gynnwys ar gyfer systemau organig. Mae ei gynnyrch yn isel (oddeutu 2 tonnell yr erw), ond mae’n derbyn pris uchel ar y farchnad (£12/kg), a fydd yn gwerthu’n dda mewn siopau fferm neu ychwanegu at flychau llysiâu, ac mae’n gnwd da i gau’r bwll rhwng diwedd cnydau’r gaeaf a dechrau cnydau’r haf. Gellir plannu coronau asbaragws yn y gwanwyn, ar ddyfnder o 15cm mewn rhychau, tua 25k/ha (er y gellir plannu rhai mathau ar ddwysedd uwch). Mae rheoli chwyn yn bwysig, yn enwedig wrth i gnydau ymsefydlu - gweler yr adran ar asbaragws am argymhellion. Nid yw asbaragws yn dioddef unrhyw ddifrod sylweddol o ganlyniad i blâu a chlefydau. Gall gwllithod fod yn broblem, gyda gweithgarwch tanddaearol yn arwain at goesynnau’r planhigyn yn dod i’r amlwg wedi’u plygu. Gellir rheoli gwllithod gyda ffosffad fferrig, neu drwy daenu nematodau (*Nemaslug*) ar gyfradd o 1000L/ha ar nosweithiau gwlyb. Gall rhew hefyd arwain at goesynnau wedi’u plygu, a cheir y cynaeafau gorau unwaith y bydd y tywydd wedi cynhesu wrth fynd i fis Mai.



### Cnydau bresych

Dylech fod yn hau nawr ar gyfer cnydau bresych yn y gaeaf. Gall dyfrhau fod yn bwysig wrth i drawsblaniadau ymsefydlu, yn enwedig ar briddoedd ysgafnach, a dylech wirio difrod gan y gwynt yn y cam hwn. Rhaid rhoi sylw gofalus i reoli chwyn, ac er y bydd symptomau cynnar y clefyd (e.e. smotyn cylchog, smotyn tywyll a golau ar y dail) yn parhau, bydd tywydd sychach yn arafu haint a datblygiad pellach. Dylech hefyd fonitro'n agos am unrhyw ddifrod gwllithod ar ôl glaw. Gellir plannu rhai mathau tebyg i ‘tenderstem’ drwy gydol y flwyddyn (e.e. Montebello) sy’n rhoi cynnyrch da a gellir eu gwerthu am werth uchel.



### Riwbob

Mae riwbob yn gnwd gwydn arall a fydd yn darparu cynnyrch da am 5 mlynedd a mwy ar ôl ei blannu. Gellir cynaeafu Timperly Early o fis Mawrth i fis Hydref, a bydd yn ymateb yn dda i fwydo a thocio dail cynnar. Mae bwydo nitrogen yn gynnar yn y tymor yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau cynhaeaf da. Mae rheoli chwyn yn gynnar yn y tymor mewn cnydau riwbob yn hanfodol –



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



ystyriwch ddefnyddio Shield Pro (20231980) a Flexidor (0729/21) sy'n arbennig o effeithiol yn erbyn ystod o chwyn llydanddail. Gallai riwbob flodeuo ond nid yw'n glir beth sy'n sbarduno hyn – mae'n well tynnu'r blodau hyn cyn gynted ag y byddwch yn eu gweld yn eich gwelyau.

### **Pwmpenni a Gwrdiau**

Dylech ystyried archebu planhigion pwmpenni a gwrdiau o luosogwyr nawr i'w plannu'n ddiweddarach. Bydd angen i chi hefyd ystyried creu hen wely hadau i waredu unrhyw faich chwyn – gweler y taflenni ffeithiau canllawiau ar gyfer casglu eich pwmpenni eich hun a chwynladdwyr am gyngor ynghylch rheoli chwyn. Gall dewis amrywiaethau'n ofalus fod yn bwysig er mwyn sicrhau'r cynnyrch gorau. Bydd gwrdiau'n storio'n dda os byddant yn cael eu cadw'n sych (a heb eu hoeri) drwy'r gaeaf i'r gwanwyn, gan roi cyfnod hir ar gyfer marchnata. Efallai yr hoffech hefyd feddwl am amrywiaeth o wahanol fathau o gwrdiau i apelio at eich cwsmeriaid. Mae cyflenwyr megis CN Seeds

yn cynnig ystod o hadau hybrid F1. Mae'r gwrd Amoro, dosbarth kabocha, yn dda ac yn cynhyrchu sawl gwrd fesul planhigyn ar rai safleoedd. Mae Crown Prince yn fath glas gyda chroen caled sy'n cadw'n dda. Peidiwch â storio teulu pwmpenni ar dymheredd isel – nid ydynt yn hoff o'r oerni, ac mae'n well osgoi eu golchi wrth eu codi o'r cae i osgoi pydredd.



### **Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig (IPDM) mewn Letys**

Dylid dechrau rhaglenni Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig yn gynnar yn y gwanwyn – efallai yr hoffech ystyried cymysgedd ysglyfaethwyr parasitaidd llyslau, a'i ail-wasgaru bob pythefnos. Gall hwn gynnig lefel dda o reolaeth ar ôl ei sefydlu. Fodd bynnag, mae angen gwneud hyn mewn cnydau dan do i sicrhau'r llwyddiant gorau.

### **Ymwadiad**

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegion diogelu cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion y label i'w defnyddio ar gnydau pwmpenni ond fe'u caniateir drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'Y Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr yn ôl risg y defnyddiwr ei hun, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr yn gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

